**EITEM**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ardal Dwyfor** |
| **DYDDIAD** | **12 Rhagfyr 2011** |
| **TEITL** | **Gorchymyn Cau Ffordd (Rhan o Ffordd Diddosbarth Stad Diwydiannol Penamser) 2011** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **I argymell bod y Pwyllgor yn cefnogi'r bwriad i gau rhan o'r ffordd diddosbarth o fewn Stad Diwydiannol Penamser ym Mhorthmadog.** |
| **AWDUR** | **Aled Davies.**<br>**Pennaeth Adran Rheoleiddio** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r bwriad i wneud cais i'r Llys Ynadon i gau'r rhan o'r ffordd ddi-ddosbarth ar safle warws Gelert ar y sail nad oes ei hangen fel priffordd gyhoeddus bellach.** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd William Gareth Roberts** |

## 1. Cefndir

1.1 Yn Medi 2004 rhoddwyd caniatâd cynllunio am estyniad i ganolfan storio a dosbarthu Gelert sydd wedi ei leoli i'r gogledd o Stad Ddiwydiannol Penamser ym Mhorthmadog.

1.2 Roedd y cais yn cynnwys bwriad i ymestyn y warws dosbarthu dros y tir wedi ei feddiannu gyda mynediad arall yn cael ei ddarparu i'r tiri'w ddatblygu a gwelliannau i'w gwneud i'r ffyrdd stad eraill gerllaw er mwyn gwella'r mynediad a darparu man troi i weddill y stad.

1.3 Ar gwblhad y datblygiad gosodwyd ffens ar draws hyd fyr o ffordd oedd yn arwain i safle'r warws a cwblhawyd y gwelliannau i'r ffordd stad fabwysiedig gerllaw.

1.4 Mabwysiadwyd y man troi newydd o dan Adran 228 o'r Ddeddf Priffyrdd 1980 ac ystyrir bod y rhan newydd o ffordd a ddarparwyd yn addas I wasanaethu'r stad yn hytrach na'r rhan hwnnw a gollwyd o ganlyniad i ail ddatblygiad safle Gelert.

1.5 Nid yw'r rhan o'r ffordd sydd bellach yn disgyn o fewn safle Gelert ar gael i'w ddefnyddio fel priffordd. Fodd bynnag, mae'r ffordd yn parhau ar y gofrestr priffyrdd fel ffordd fabwysiedig.

1.6 Felly mae'r Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd yn bwriadu gwneud cais trwy'r Llys Ynadon i gau'r rhan yma gan nad oes ei hangen fel priffordd gyhoeddus bellach.


## 2. Ymgynghoriadau

2.1 Derbynnwyd yr ymatebion canlynol yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol:

a. Cyngor Cymuned/Tref: Dim gwrthwynebiad
b. Aelod Lleol: Dim gwrthwynebiad
c. Ymgymerwyr Statudol: Dim gwrthwynebiad gan Dwr Cymru na Wales & West Utilities.

## 3. Argymhelliad

3.1 Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r bwriad i wneud cais i'r Llys Ynadon i gau'r rhan o'r ffordd ddi-ddosbarth ar safle warws Gelert ar y sail nad oes ei hangen fel priffordd gyhoeddus bellach.



Parc Busnes
Porthmadog
Business Park
Tank
Rhan o'r ffordd i'w cau
Section of highway to be stopped up
Rhan newydd o'r ffordd
New section of highway
C1
C2
C1
C2
B1
B2
Drain





Lluniau awyr o’r safle cyn ac arol adeiladu’r warws.